



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 2993 (Cy.280)

2006 No. 2993 (W.280)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

TRANSPORT, WALES

Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth
Rhanbarthol (Cymru) 2006

The Regional Transport Planning
(Wales) Order 2006

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae adrannau 108 i 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trafniadaeth lleol ddatblygu polisiau i hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau trafniadaeth sy'n ddiogel, yn integredig, yn effeithlon ac yn economaidd yn eu hardal. Enw'r polisiau hyn gyda'i gilydd yw cynllun trafniadaeth lleol. Mae'n ofynnol i awdurdodau trafniadaeth lleol gyhoeddi'u cynllun trafniadaeth lleol, trefnu bod copi ohono ar gael i'r cyhoedd edrych arno a'i ddiweddarau'n rheolaidd, gan ei ddisodli gan gynllun newydd cyn pen pum mlynedd ar ôl y dyddiad pan wnaed y gwreiddiol. Fodd bynnag, os cyhoeddwyd cynllun o'r fath cyn 1 Awst 2001, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu, drwy Orchymyn, y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r cynllun gael ei ddisodli.

Sections 108 to 111 of the Transport Act 2000 require local transport authorities to develop policies for the promotion of safe, integrated, efficient and economic transport facilities and services within their area. These policies are known collectively as a local transport plan. Local transport authorities are required to publish their local transport plan, make a copy available for public inspection and keep the plan under regular review, replacing it with a new plan no later than five years after the date on which the original was made. Where however such a plan was published prior to 1 August 2001, the National Assembly is required to specify, by Order, the date by which the plan must be replaced.

Mae adran 3 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a'r Atodlen iddi yn addasu adrannau 108 i 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, drwy gyflwyno adrannau newydd nad ydynt yn gymwys ond i Gymru.

Section 3 of, and the Schedule to, the Transport (Wales) Act 2006 modifies sections 108 to 111 of the Transport Act 2000, introducing new sections that apply only to Wales.

Mae adran 108 wedi'i diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau trafniadaeth lleol ddatblygu cynlluniau trafniadaeth lleol sy'n rhoi Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ("y Strategaeth") ar waith. Mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio a chyhoeddi'r Strategaeth gan adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Rhaid i'r Strategaeth nodi'r polisiau a ddatblygwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau trafniadaeth sy'n ddiogel, yn integredig, yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn economaidd. Rhaid iddi ddangos sut y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu gweithredu'r polisiau hynny.

Section 108 is amended to require local transport authorities to develop local transport plans which implement the Wales Transport Strategy ("the Strategy"). The National Assembly for Wales is required to prepare and publish the Strategy by section 2 of the Transport (Wales) Act 2006. The Strategy must set out the policies developed by the National Assembly for Wales to promote safe, integrated, sustainable, efficient and economic transport facilities and services. It must also set out how the National Assembly for Wales proposes to carry out those policies.

Ymgorfforwyd adrannau 109A, 109B a 109C newydd gan ddisodli adran 109 o ran Cymru. Mae'r adrannau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trafndiaeth lleol gyflwyno'u cynllun trafndiaeth lleol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo ac i adolygu'u cynlluniau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi Strategaeth Trafndiaeth Cymru.

Mae adran 109C yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â chynlluniau trafndiaeth lleol a luniwyd cyn 1 Awst 2001. Os yw cynllun o'r fath yn cynnwys polisiau ar gyfer hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau a gwasanaethau trafndiaeth sy'n ddiogel, yn integredig, yn effeithlon ac yn economaidd ac os lluniwyd y cynllun yn unol â chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu drwy Orchymyn y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i gynlluniau o'r fath gael eu disodli.

Mae Deddf Trafndiaeth (Cymru) 2006 hefyd yn ymgorffori adrannau 113A a 113B newydd yn Neddf Trafndiaeth 2000. Mae adran 113A yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Gorchymyn sy'n galluogi awdurdodau trafndiaeth lleol lunio cynllun trafndiaeth lleol o ran rhan o'u hardal yn unig. Mae hefyd yn caniatáu i gynllun trafndiaeth lleol gael ei lunio gan ddau neu ragor o awdurdodau ar y cyd o ran ardal sy'n cyfateb i'r cyfan neu unrhyw ran o'r ardaloedd hynny gyda'i gilydd (eu "cydardal"). Mae adran 113B yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i awdurdodau trafndiaeth lleol o ran y dull y maent yn cyflawni'u swyddogaethau o dan adrannau 108 i 111 o Ddeddf Trafndiaeth 2000.

Effaith y Gorchymyn hwn yw arfer pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 113A o Ddeddf Trafndiaeth 2000 i addasu adrannau 108 i 111 o'r Ddeddf honno. Yn benodol, mae'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ganiatáu gwneud cynlluniau trafndiaeth lleol ar sail ranbarthol yn hytrach nag ar sail awdurdod unigol ac mae'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid disodli cynlluniau trafndiaeth lleol sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol.

Nid yw'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer dull cydweithio awdurdodau trafndiaeth lleol. Mae hyn yn fater i'r awdurdodau perthnasol. Nid yw'r Gorchymyn ychwaith yn darparu ar gyfer llunio a gweithredu'r cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol newydd gan yr ymdrinnir â hyn ar wahân yn y canllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 112 o Ddeddf Trafndiaeth 2000.

New sections 109A, 109B and 109C have been incorporated, replacing section 109 in relation to Wales. The new sections require local transport authorities to submit their local transport plans to the National Assembly for Wales for approval and to review their plans as soon as practicable after the publication of the Wales Transport Strategy.

Section 109C makes transitional provisions in respect of local transport plans produced prior to 1 August 2001. Where such a plan contains policies for the promotion and encouragement of safe, integrated, efficient and economic transport facilities and services and was produced in accordance with National Assembly for Wales guidance, the National Assembly for Wales must specify by Order the date by which such plans must be replaced.

The Transport (Wales) Act 2006 also incorporates new sections 113A and 113B into the Transport Act 2000. Section 113A enables the National Assembly for Wales to make an Order permitting local transport authorities to produce a local transport plan in respect of part only of their area. It also permits a local transport plan to be prepared by two or more authorities jointly in respect of an area comprising of all or any part of their collective area. Section 113B enables the National Assembly for Wales to issue written directions to local transport authorities in relation to the manner in which they carry out their functions under sections 108 to 111 of the Transport Act 2000.

The effect of this Order is to exercise the power of the National Assembly for Wales under section 113A of the Transport Act 2000 to modify sections 108 to 111 of that Act. Specifically, it allows the National Assembly for Wales to permit local transport plans to be made on a regional rather than individual authority basis and specifies the date by which local transport plans which fulfil the requisite criteria must be replaced.

The Order does not make provision for the way in which the local transport authorities will work together. This is a matter for the relevant authorities. Neither does the Order make provision for the preparation and implementation of the new regional transport plans as this is dealt with separately in guidance published by the National Assembly for Wales in accordance with section 112 of the Transport Act 2000.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gael eu cynnull yn bedwar grŵp er mwyn llunio un cynllun trafndiaeth ar gyfer pob grŵp. Seilir y grwpiau ar bedwar ardal ranbarthol: y De-ddwyrain, y De-orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd.

Mae erthygl 4 yn arfer pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 113A(1)(a) o Ddeddf Trafndiaeth 2000 i ganiatáu llunio cynllun trafndiaeth lleol o ran rhan yn unig o ardal awdurdod trafndiaeth lleol. Yn yr erthygl hon, caniatawyd i awdurdod trafndiaeth lleol Gwynedd gyfranu tuag at gynlluniau trafndiaeth lleol sy'n cwmpasu neu'n cynnwys dosbarth Meirionnydd a gweddill sir Gwynedd yn y drefn honno.

Mae erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau trafndiaeth lleol, sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol, gael eu disodli heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2008.

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn yn rhestru'r pedwar grwp a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.

Article 3 of this Order makes provision for the 22 Welsh local authorities to be assembled into four groups for the purpose of preparing a single transport plan for each group. The groups are based upon four regional areas: South East Wales, South West Wales, Mid Wales and North Wales.

Article 4 exercises the power of the National Assembly for Wales under section 113A(1)(a) of the Transport Act 2000 to permit a local transport plan to be prepared in respect of part only of a local transport authority's area. In this article, the local transport authority of Gwynedd is to contribute to two separate local transport plans covering or including the district of Meirionnydd and the remainder of the county of Gwynedd respectively.

Article 5 requires the replacement of local transport plans, which fulfil the requisite criteria, by no later than 30 June 2008.

The Schedule to the Order lists the four groups and their constituent local authorities.

2006 Rhif 2993 (Cy.280)**2006 No. 2993 (W.280)****TRAFNIDIAETH, CYMRU****TRANSPORT, WALES****Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth
Rhanbarthol (Cymru) 2006****The Regional Transport Planning
(Wales) Order 2006***Wedi'i wneud* 15 Tachwedd 2006*Made* 15 November 2006*Yn dod i rym* Tachwedd 23 2006*Coming into force* 23 November 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 108, 109C a 113A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(1) ac ar ol ymgynhori âg awdurdodau Trafnidiaeth lleol ac eraill yn unol Ag adran 113A(3) o'r Deddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 108, 109C and 113A of the Transport Act 2000(1) and after consulting local transport authorities and others in accordance with section 113A(3), hereby makes the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006.

1.-(1) The title of this Order is the Regional Transport Planning (Wales) Order 2006.

(2) Daw i rym ar Tachwedd 23 2006 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) It comes into force on 23 November 2006 and applies in relation to Wales.

Dehongli**Interpretation****2. Yn y Gorchymyn hwn-****2. In this Order-**

ystyr "awdurdod trafndiaeth lleol" ("*local transport authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

"the 2000 Act" ("*y Ddeddf 2000*") means the Transport Act 2000;

ystyr "cydardal" ("*collective area*") parthed grŵp awdurdod trafndiaeth lleol yw cydardal daearyddol yr awdurdodau trafndiaeth lleol o fewn y grwp fel a ddiwygiwyd gan Erthygl 4 a fel a ddisgrifiwyd yn yr Atodlen fel y De-ddwyrain, y De-orllewin, Y Canolbarth a'r Gogledd yn ol y digwydd;

"collective area" ("*cydardal*") means, in respect of a local transport authority group, the collective geographical area of the local transport authorities within that group as modified by article 4 and described in the Schedule being either South East Wales, South West Wales, Mid Wales or North Wales as the case may be;

ystyr "cynllun trafndiaeth lleol cymwys" ("*qualifying local transport plan*") yw cynllun trafndiaeth lleol sy'n bodloni'r meini prawf a osodir yn adran 109C(1) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000;

"local transport authority" ("*awdurdod trafndiaeth lleol*") means a county council or a county borough council in Wales;

ystyr "y Ddeddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000; ac

"local transport authority group" ("*grŵp awdurdod trafndiaeth lleol*") means any one of the four groups of local transport authorities described in the Schedule;

ystyr "grŵp awdurdod trafndiaeth lleol" ("*local authority transport group*") yw unrwy un o'r

"qualifying local transport plan" ("*cynllun trafndiaeth lleol cymwys*") means a local transport plan within the meaning given to that term by

(1) 2000 p.38 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006).

(1) 2000 c.38, (as amended by the Transport (Wales) Act 2006).

pedwar grwp o awdurdodau trafndiaeth lleol a ddisgrifir yn yr Atodlen.

section 109C(1) of the Transport Act 2000.

Rhwymedigaeth i lunio cynlluniau trafndiaeth lleol o dan adran 108 o Ddeddf 2000

3.-(1) Mae cymhwysiad adran 108 o Ddeddf 2000 parthed paratoi cynlluniadau trafndiaeth lleol gan awdurdodau trafndiaeth lleol, yn ddarostynedig i erthygl 4 wedi'i ddiwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Gall yr awdurdodau trafndiaeth lleol gyfansoddol baratoi cynllun trafndiaeth lleol ar y cyd parthed eu cydardal.

Cynlluniau ar gyfer ardaloedd o Wynedd

4.-(1) Yn unol ag adran 113A(1)(a) a (b) o Ddeddf 2000, gall awdurdod trafndiaeth lleol Gwynedd, gan weithredu ar y cyd â'r awdurdodau trafndiaeth lleol yng Ngrŵp 3 yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, lunio cynllun trafndiaeth lleol ar gyfer eu cydardal ond er mwyn neilltuo pob ardal o Sir Gwynedd heblaw am ardal Meirionnydd.

(2) Yn unol ag adran 113A(1)(a) a (b) o Ddeddf 2000, gall awdurdod trafndiaeth lleol Gwynedd, gan weithredu ar y cyd â'r awdurdodau trafndiaeth lleol yng Ngrŵp 4 yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn lunio cynllun trafndiaeth lleol ar gyfer eu cydardal i gynnwys sir Gwynedd ac eithrio dosbarth Meirionnydd.

Dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid disodli cynlluniau trafndiaeth lleol cymwys

5. Yn unol ag adran 109C(2) o Ddeddf 2000, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cynllun trafndiaeth lleol cymwys yn cael ei ddisodli erbyn dim hwyrach na 30 Mehefin 2008.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

15 Tachwedd 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Obligation to produce local transport plans under section 108 of the 2000 Act

3.-(1) The application of section 108 of the 2000 Act in respect of the preparation of local transport plans by local transport authorities is, subject to article 4, modified in accordance with paragraph (2).

(2) The constituent local transport authorities of a local transport authority group may jointly prepare a local transport plan in respect of their collective area.

Plans for areas of Gwynedd

4.-(1) In accordance with section 113A(1)(a) and (b) of the 2000 Act, the local transport authority of Gwynedd, acting jointly with those local transport authorities in Group 3 in the Schedule to this Order, may prepare a local transport plan for their collective area but to exclude all areas of the County of Gwynedd with the exception of the district of Meirionnydd.

(2) In accordance with section 113A(1)(a) and (b) of the 2000 Act, the local transport authority of Gwynedd, acting jointly with those local transport authorities in Group 4 in the Schedule to this Order, may prepare a local transport plan for their collective area to include all areas of the County of Gwynedd with the exception of the district of Meirionnydd.

Date by which qualifying local transport plans must be replaced

5. In accordance with section 109C(2) of the 2000 Act, the National Assembly for Wales requires all qualifying local transport plans to be replaced no later than 30 June 2008.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

15 November 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

Erthygl 2 a 4

CYFANSODDIAD GRWPIAU
AWDURDODAU TRAFNIDIAETH LLEOL

Rhif y Grŵp a chydardal	Yr Awdurdod Lleol Cyfansoddol
Grŵp 1	Blaenau Gwent
Y De-ddwyrain	Pen-y-bont ar Ogwr
	Caerffili
	Caerdydd
	Merthyr Tudful
	Sir Fynwy
	Casnewydd
	Rhondda Cynon Taf
	Tor-faen
	Bro Morgannwg
Grŵp 2	Abertawe
Y De-orllewin	Castell-nedd Port Talbot
	Sir Gaerfyrddin
	Sir Benfro
Grŵp 3	Ceredigion
Y Canolbarth (gan gynnwys dosbarth Meirionnydd)	Gwynedd
	Powys
Grŵp 4	Ynys Môn
Y Gogledd (ag eithrio Meirionnydd)	Gwynedd
	Conwy
	Sir Ddinbych
	Sir y Fflint
	Wrecsam

SCHEDULE

Article 2 and 3

COMPOSITION OF LOCAL TRANSPORT
AUTHORITY GROUPS

Group Number and Collective Area	Constituent Local Authority
Group 1	Blaenau Gwent
South East Wales	Bridgend
	Caerphilly
	Cardiff
	Merthyr Tydfil
	Monmouthshire
	Newport
	Rhondda Cynon Taf
	Torfaen
	Vale of Glamorgan
Group 2	Swansea
South West Wales	Neath Port Talbot
	Carmarthenshire
	Pembrokeshire
Group 3	Ceredigion
Mid Wales (including District of Meirionnydd)	Gwynedd
	Powys
Group 4	Isle of Anglesey
North Wales (excluding District of Meirionnydd)	Gwynedd
	Conwy
	Denbighshire
	Flintshire
	Wrexham

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 2993 (Cy.280)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth
Rhanbarthol (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 2993 (W.280)

TRANSPORT, WALES

The Regional Transport Planning
(Wales) Order 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W419/11/06

ON